OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1992

## Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

## RHAN 2

### Dyfeisiau adnabod

**Cymeradwyo dyfeisiau adnabod**

**5.** Rhaid i ddyfeisiau adnabod a ddefnyddir i gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn fod o fodel a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

**Tagiau ychwanegol a dyfeisiau adnabod sydd â gwybodaeth ychwanegol**

**6.**—(1) Ar gais ceidwad, caiff gweithgynhyrchydd dyfeisiau adnabod, yn ddarostyngedig i erthygl 6(2), ychwanegu gwybodaeth atodol at ddyfais adnabod neu ddyfais amnewid ar yr amod—

(a) bod yr wybodaeth atodol yn gwbl wahanol i'r cod adnabod; a

(b) bod y cod adnabod yn parhau'n ddarllenadwy ac y gellir ei weld yn eglur bob amser.

(2) Caiff ceidwad osod tag ychwanegol ar anifail ond rhaid iddo beidio â chynnwys y llythrennau "UK" nac ychwaith ddwyn nod diadell neu nod geifre, onid awdurdodir hynny gan Weinidogion Cymru.

**Lliw dyfeisiau adnabod**

**7.**—(1) Rhaid i bob dyfais adnabod, heblaw dyfeisiau amnewid a bolysau, fod yn felyn ac ni chaiff ceidwad osod dyfais adnabod felyn nad yw'n electronig.

(2) Ni chaiff neb osod dyfais adnabod goch ar unrhyw anifail, heblaw dyfais adnabod amnewid.

(3) Pan fo ceidwad yn ailadnabod anifail ac nad yw'r anifail hwnnw ar ei ddaliad genedigol, neu pan nad yw'r ceidwad yn gwybod y daliad genedigol, rhaid iddo ddefnyddio dyfais adnabod amnewid goch ond nid yw'r gofyniad bod rhaid defnyddio dyfais adnabod goch yn gymwys i ddefnyddio bolysau.

(4) Pan adwaenir anifail drwy gyfrwng bolws ac ail ddyfais adnabod rhaid i'r ail ddyfais honno fod yn ddu ac ni chaniateir defnyddio dyfais adnabod ddu ac eithrio mewn cyfuniad â bolws.

(5) Rhaid i'r arwyddnodau ar bob dyfais adnabod fod o liw gwahanol i gefndir y ddyfais a bod yn eglur a darllenadwy bob amser pan fo'r ddyfais ynghlwm wrth anifail.

(6) Caniateir defnyddio mecanwaith o unrhyw liw i osod tagiau clust melyn, coch neu ddu.

**Dinistrio dyfeisiau adnabod**

**8.**—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy, iard gelanedd, cynel helgwn neu safle rendro, ac unrhyw berson arall sy'n gwaredu'n derfynol garcas anifail a adnabuwyd, ddinistrio pob dyfais adnabod

sydd ar yr anifeiliaid a gigyddir neu a waredir rywfodd arall ganddynt, mewn modd diogel a fydd yn atal ailddefnyddio'r dyfeisiau adnabod.

(2) Mae dinistrio diogel yn cynnwys rendro unrhyw ddyfais adnabod.